# CRWYDRO PENRHYN GŴYR

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn dod i wybod am Benrhyn Gŵyr o ran ble y mae, rhai o'i nodweddion allweddol a rhywfaint o'i hanes. Maent yn creu llinell amser fyw ac yn cynrychioli hyn mewn dau ddimensiwn. Bydd archwiliad pellach o Benrhyn Gŵyr yn eu helpu i ddeall sut yr effeithiodd cyfnodau hanesyddol gwahanol ar yr ardal. Mae dysgwyr yn defnyddio ymchwil y dosbarth i wneud llinell amser wrth raddfa i gynrychioli'r digwyddiadau hanesyddol pwysicaf.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).
Dulliau o fesur, e.e. preniau mesur, ffyn metr, tâp mesur chwaraeon, pedomedr.
Dulliau o labelu pwyntiau a dangos llinell amser yn yr awyr agored, e.e. sialc, llinyn, ffyn, ac ati.
Er nad yw'n hanfodol, byddai mynd â dysgwyr i Benrhyn Gŵyr i weld yr arteffactau a'r henebion hanesyddol hyn yn cyfoethogi'r dysgu.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH YDYM NI'N EI WYBOD AM BENRHYN GŴYR?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddarganfod mwy am hanes Penrhyn Gŵyr.

### Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am leoliad Penrhyn Gŵyr. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol, ac yna braslunio'r dirwedd y bydden nhw'n dod o hyd iddi ym Mhenrhyn Gŵyr, yn eu meddyliau nhw.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n ei wybod am Benrhyn Gŵyr? Sut ydych chi'n gwybod y pethau hyn?
- Pa mor hen yw'r penrhyn, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa nodweddion allai fod yn y dirwedd hon? Pam?

## Sgriniau 4-5

Gofynnwch i'r dysgwyr ddilyn y ddolen i edrych ar fap rhyngweithiol o Benrhyn Gŵyr: Map of Gower (Saesneg yn unig) a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae pwynt mwyaf gogleddol Penrhyn Gŵyr? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ble mae pwynt mwyaf deheuol Penrhyn Gŵyr?
- Beth yw'r pellter rhwng y ddau bwynt hyn, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble mae pwynt mwyaf gorllewinol Penrhyn Gŵyr?
- Beth yw'r pwyntiau uchaf ac isaf y gallwch chi ddod o hyd iddynt?
- Yn fras, sawl milltir sgwâr yw Gŵyr?

Yna, gofynnwch iddyn nhw edrych eto ar y map rhyngweithiol a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa draethau neu leoedd ydych chi wedi ymweld â nhw? Pryd? Gyda phwy oeddech chi?
- Pa draeth yw'r agosaf at eich ysgol? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa mor bell yw'r traeth hwn? Sut allech chi weithio allan beth yw'r pellter?

## Sgriniau 6-9

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth ar y sgrîn sydd wedi'i haddasu o: Tirwedd Genedlaethol Gŵyr - Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol - Abertawe.

Amlygir llwybr cerdded sy'n cychwyn ym maes parcio Llanmadog. Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar fap Arolwg Ordnans (OS) o'r ardal, dod o hyd i'r maes parcio a nodi ei gyfesurynnau. Yna, dylent ddod o hyd i'w hysgol ar y map, gwneud nodyn o'i chyfesurynnau a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut fyddech chi'n cyrraedd maes parcio Llanmadog o'ch ysgol?
- Pa lwybr fyddech chi'n ei ddilyn? Pam?
- Ar ba ffyrdd fyddech chi'n teithio? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa mor bell yw hi o'r ysgol i faes parcio Llanmadog? Sut allech chi gyfrifo'r pellter?

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio allan pa un yw'r llwybr gorau o'u hysgol i'r maes parcio ac ysgrifennu a chofnodi set o gyfarwyddiadau llywio â lloeren (SatNav) ar gyfer y daith. Er mwyn eu hannog i fyfyrio ar y sgrîn flaenorol, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa broblemau gawsoch chi wrth gwblhau'r dasg?
- Sut wnaethoch chi ddatrys y problemau hyn? Pam y gweithiodd y pethau hyn?
- Beth ddysgoch chi a allai fod o gymorth i chi gyda thasgau tebyg yn y dyfodol?
- Sut allech chi brofi cywirdeb eich cyfarwyddiadau Llywio â Lloeren?

Gallent ddefnyddio: Distance Calculator - Distance Between Coordinates - Distance Between Cities (Saesneg yn unig) i gyfrifo'r pellter.

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl yw'r adeilad hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pwy allai fod wedi rhoi'r adeilad hwn yno? Pam?
- Pryd ydych chi'n meddwl y gallai fod wedi'i adeiladu? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgriniau 11-12

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Castell Pennard yn adeilad rhestredig Gradd II. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl yw adeilad rhestredig Gradd II? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa raddau eraill o adeiladau sydd i'w cael? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut olwg fyddai ar adeilad rhestredig, yn eich barn chi? Pam?
- Pa nodweddion fyddai efallai i adeilad rhestredig? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pam ydych chi'n meddwl bod Castell Pennard yn adeilad rhestredig?

## Sgrîn 13

Ar y sgrîn hon, rhoddir manylion ynghylch sut mae adeiladau'n cael eu rhestru a beth mae'r rhestru yn ei olygu. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Yn fras, faint o adeiladau rhestredig sydd i gyd yng Nghymru? Sut wnaethoch chi gyfrifo hyn?
- Pam ydych chi'n meddwl bod cyn lleied o adeiladau rhestredig Gradd I yng Nghymru?
- Yn fras, faint o adeiladau rhestredig Gradd II sydd yng Nghymru? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgrîn 14

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n mynd allan i'r awyr agored i edrych o gwmpas yr ardal leol am adeiladau y maen nhw'n credu y gallent fod wedi'u rhestru, gan gymryd ffotograffau o bob un a gwneud nodiadau amdanynt. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydym ni'n chwilio amdano?
- Beth yw'r arwyddion a'r cliwiau y gallai adeilad fod wedi ei restru?
- Allwn ni ofyn i rywun? Pwy?
- Pa dystiolaeth arall allai fod ar gael?

## Sgrîn 15

Ewch â dysgwyr allan i'r awyr agored i chwilio am adeiladau rhestredig.

TASG 2

# SUT MAE CREU LLINELL AMSER?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n darganfod sut i greu llinell amser fyw ac yna'n creu fersiwn dau ddimensiwn (2D) o'u llinell amser.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw llinell amser? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut ydych chi'n creu llinell amser? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa gamau sydd angen i chi eu cymryd? Pam?
- Sut ydych chi'n penderfynu ar ba ddyddiad i ddechrau a gorffen y linell amser? Pam?
- Pa mor hir y mae angen i linell amser fod? Pam?
- Sut ydych chi'n penderfynu pa raddfa i'w defnyddio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i greu 'llinell amser fyw' ar dir yr ysgol sy'n dangos amser un aelod o'r grŵp, yn yr ysgol. Cyn iddynt wneud eu llinell amser, gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sawl blwyddyn mae angen i'ch llinell amser ddangos? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pryd fydd y linell amser yn dechrau? Pam?
- Pryd fydd y linell amser yn dod i ben? Pam?
- Pa raddfa fyddwch chi'n ei defnyddio ar gyfer y linell amser? Pam?
- Sut byddwch chi'n mesur eich graddfa?
- Sut byddwch chi'n nodi rhaniadau eich llinell amser?
- Beth yw'r prif ddigwyddiadau y mae angen i chi eu dangos ar y linell amser? Pam ydych chi wedi dewis y rhain?
- Sut byddwch chi'n gweithio allan ble i roi'r digwyddiadau hyn ar y linell amser? Pam ei wneud fel yna?
- Sut byddwch chi'n dangos y prif ddigwyddiadau ar eich llinell amser? Pam eu dangos fel hynny?

## Sgrîn 5

Unwaith y bydd y dysgwyr wedi cynllunio eu llinell amser, gofynnwch iddyn nhw fynd allan i'r awyr agored i greu eu llinell amser.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i fyfyrio ar y dasg trwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd y problemau wrth greu eich llinell amser fyw?
- Sut wnaethoch chi oresgyn y problemau hyn?
- Pe gallech chi wneud eich llinell amser eto, beth fyddech chi'n ei wneud er mwyn ei gwella?

## Sgrîn 7

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i wneud fersiwn dau ddimensiwn (2D) o'u llinell amser fyw, sy'n dangos amser un aelod o'r grŵp yn yr ysgol. Yna, dylai'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd hyd y linell amser fyw? Pa mor hir all y fersiwn 2D fod? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut byddwch chi'n addasu'r linell amser fyw i wneud fersiwn 2D?
- Pa raddfa fyddwch chi'n ei defnyddio ar gyfer y linell amser 2D? Pam?
- Beth yw'r prif anawsterau wrth greu llinell amser 2D? Sut byddwch chi'n datrys yr anawsterau hyn? Pam eu datrys fel hyn?
- Beth yw manteision ac anfanteision y linell amser 2D? Pam?

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu a darllen y ddogfen 'Meini Prawf ar gyfer creu llinell amser' a dilyn y cyngor i greu eu llinell amser.

## Sgrîn 9

Gwahoddwch y dysgwyr i rannu eu llinell amser gyda grŵp arall, gan ofyn iddyn nhw ystyried:

- I ba raddau mae'r linell amser 2D yn cyd-fynd â'r cyngor yn y ddogfen?
- Sut y gellid gwella'r linell amser 2D? Pam y byddai'r pethau hyn yn ei gwella?

Gellir cyrchu'r ddogfen 'Meini Prawf ar gyfer creu llinell amser' eto o'r sgrîn hon.

TASG 3

# SUT GALLWN NI WNEUD LLINELL AMSER AR GYFER PENRHYN GŴYR?

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn eu helpu i ddeall sut mae cyfnodau hanesyddol gwahanol wedi effeithio ar Benrhyn Gŵyr. Byddant yn creu llinell amser wrth raddfa i gynrychioli'r digwyddiadau hanesyddol pwysicaf.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Castell Pennard yn dyddio o ddiwedd y 12fed ganrif neu ddechrau'r 13eg ganrif – dros 700 mlynedd yn ôl. Gofynnwch i'r dysgwyr ymweld â'r tudalennau gwe Adfeilion Castell Pennard, Gŵyr – History Points a Mythau Castell Pennard, Gŵyr - History Points a darllen mwy am Gastell Pennard. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allai fod wedi achosi i Gastell Pennard gael ei adael?
- Pam y gallai copa bryn serth sydd uwchben traeth tywodlyd fod yn:
  - leoliad da i gastell
  - lleoliad gwael i gastell?

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n casglu gwybodaeth am hanes Penrhyn Gŵyr, drwy gydol gweddill y dasg hon. Byddant yn defnyddio'r wybodaeth hon i greu llinell amser ar gyfer Penrhyn Gŵyr. Gwahoddwch y dysgwyr i ddechrau creu drafft cyntaf eu llinell amser ar sail y wybodaeth y maen nhw wedi'i darganfod am Gastell Pennard a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sawl blwyddyn mae angen i'ch llinell amser eu dangos? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa raddfa fyddwch chi'n ei defnyddio ar gyfer y linell amser? Pam?
- Mae'n debygol y bydd cyfnodau hir o amser heb unrhyw weithgaredd ar eich llinell amser. Sut byddwch chi'n dangos hyn?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Penrhyn Gŵyr yn gyfuniad rhyfeddol o harddwch naturiol a thapestri o atgofion hanesyddol, diwydiant a diwylliant o fewn 180 cilometr sgwâr, a'i fod yn cynnwys:

- safleoedd a henebion cynhanesyddol
- bryngaerau o Oes yr Haearn
- safleoedd claddu a charneddau o'r Oes Efydd
- ffyrdd Rhufeinig
- cestyll ac olion canoloesol
- clogwyni calchfaen a thywodfaen.

## Sgrîn 6

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am chwilio ar y rhyngrwyd i ddarganfod gwybodaeth am gyfnod penodol mewn hanes, er mwyn gweld pa dystiolaeth o'r cyfnod hwn sydd i'w chael ym Mhenrhyn Gŵyr. Yna, byddant yn adrodd ar eu canfyddiadau i weddill y dosbarth mewn cyflwyniad munud o hyd.

Gwahoddwch y dysgwyr i gyrchu'r ddolen hon: Archwilio. Yna, dylai'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa gyfnodau gwahanol mewn hanes ydych chi wedi dod i wybod amdanyn nhw?
- Pa mor bell yn ôl mae'r rhain yn mynd? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa gyfnod mewn hanes fyddwch chi'n ymchwilio iddo? Pam?
- Beth ydych chi'n disgwyl ei ddarganfod? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr, yn eu grwpiau, benderfynu sut y byddan nhw'n cynnal chwiliad ar y rhyngrwyd er mwyn darganfod gwybodaeth am un o'r cyfnodau penodol mewn hanes a pha dystiolaeth o'r cyfnod hwn sydd i'w chael ym Mhenrhyn Gŵyr.

Atgoffwch nhw bod angen iddynt ystyried y canlynol, wrth chwilio ar y rhyngrwyd:

*Cyn ymchwilio…*

- Sut byddwch chi'n cynnal yr ymchwil hwn? Pam?
- Pa dermau chwilio allech chi eu defnyddio? Pa rai yw'r gorau? Pam?
- Pa fath o wefannau fydd orau i edrych arnynt? Pam?

*Wrth asesu gwybodaeth/data...*

- Sut ydych chi'n gwybod bod y wybodaeth neu ddata yn ddibynadwy? Sut allech chi ddarganfod os yw'n ddibynadwy?
- A allai'r wybodaeth neu ddata fod yn unochrog? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r grid CwAMFf a ddarperir i gynllunio a chynnal eu chwiliad.

## Sgrîn 9

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y wybodaeth y maen nhw wedi'i chasglu o'r chwiliad ar y rhyngrwyd ac i ystyried y cwestiynau canlynol, yn eu grwpiau.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r darnau o wybodaeth allweddol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth allech chi ei adael allan? Pam?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno'r wybodaeth hon? Pam?
- Sut y byddwch yn sicrhau mai dim ond munud o hyd yw eich cyflwyniad?

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i gyflwyno'r wybodaeth y maen nhw wedi'i chasglu, i'r dosbarth cyfan. Gofynnwch i'r gynulleidfa nodi unrhyw bwyntiau diddorol am y cyfnodau hanesyddol, fel y gallent eu defnyddio yn eu llinell amser eu hunain.

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr ychwanegu'r wybodaeth y mae'r dosbarth wedi'i chasglu am gyfnodau hanesyddol at eu llinell amser ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble ar eich llinell amser y dylid ychwanegu'r wybodaeth hon? Pam?
- Sut y byddwch chi'n crynhoi'r wybodaeth?
- Meddyliwch pa mor dda y mae eich llinell amser yn gweithio, o ran ei maint a'i graddfa. A oes angen i chi newid eich llinell amser? Os oes angen ei newid, sut?

## Sgrîn 12

Gofynnwch i bob grŵp edrych eto ar y ddogfen 'Meini prawf ar gyfer creu llinell amser' a ddefnyddiwyd ganddynt yn Nhasg 2 a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor dda mae eich llinell amser yn bodloni pob un o'r meini prawf hyn?
- Sut y gallech ddiwygio eich llinell amser fel ei bod yn bodloni'r meini prawf hyn yn well?
- Sut gallwch chi wneud eich llinell amser yn fwy diddorol?

Yna, gofynnwch iddynt gwblhau eu llinell amser.